

Deufis

Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi **Ebrill a Mai 2016**

Trefn oedfaon y Sul

Mae'r oedfaon yn gyhoeddus a chroeso i bob un fynychu unrhyw un o'r oedfaon sy'n gyfleus. Mae'r amseroedd yn gywir wrth fod y Deufis yn dod allan, ond os ydych am gael y manylion diweddaraf, beth am ddilyn @BedyddGogTeifi ar Drydar (Twitter)?

3 Ebrill

Aberduar	10.00 y bore	Oedfa Fedydd
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	6.00 yr hwyr	Cymun

10 Ebrill

Aberduar	10.00 y bore	Mrs Dwynwen Teifi
Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Cymun

17 Ebrill

Noddfa	9.30 y bore	
Aberduar	11.00 y bore	Cymun
Brynhafod	1.30 y prynhawn	

24 Ebrill

Aberduar	10.00 y bore	Mrs Maria Evans
Bethel	10.15 y bore	
Seion	1.30 y prynhawn	
Noddfa	5.00 yr hwyr	Oedfa deulu dan ofal Menna Machreth

drosodd/...

Trefn y Suliau (parhad)

1 Mai		
Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	6.00 yr hwyr	Cymun
8 Mai		
Aberduar	10.00 y bore	Mr Arwyn Pierce
Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Noddfa	2.00 y prynhawn	Rihyrsal Cymanfa Ganu dan arweiniad Mr Emlyn Davies
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Cymun
15 Mai		
Aberduar	10.00 y bore	
Brynhafod	1.30 y prynhawn	
Bethel CP	4.00 y prynhawn	Cymanfa Ganu dan arweiniad Mrs Delyth Morgans Phillips
22 Mai		
Aberduar	10.00 y bore	Mr Lyndon Lloyd
Bethel	10.15 y bore	
Seion	1.30 y prynhawn	
29 Mai		
Caersalem	10.30 y bore	Oedfa Unedig i'r Cylch dan ofal y Parchg Peter Thomas, Aberystwyth

Apêl Cymorth Cristnogol Undeb Bedyddwyr Cymru

Mae apêl newydd er mwyn cefnogi gofal mamau yn Ghana, lle mae 20 gwaith mwy o wragedd yn marw yn dilyn genedigaeth o'u cymharu â phrofiad merched Cymru. Os llwyddwn i gasglu £40,000 fe fydd £500,000 yn cael ei ychwanegu ato gan y llywodraeth. Rhaid inni drio!

Oedfa eciwmenaidd

Disgwylir y bydd
Oedfa ar gyfer wythnos
Cymorth Cristnogol
o dan ofal y pwyllgor lleol
tua diwedd mis Mai.

Manylion i ddilyn.

Diolch i bob un sy'n trefnu dyblygu a dosbarthu'r *Deufis.*

Ysgol Sul Noddfa

Cynhaliwyd oedfa arbennig yn Noddfa ar 13 Mawrth yng ngofal yr Ysgol Sul a braf oedd gweld 17 o blant a ieuenctid yn cymryd rhan a hefyd 5 o'r mamau. Trwy gyfrwng darlleniadau o'r Beibl, gweddïau, sgyrsiau, unawdau, adroddiadau a grwpiau canu dathlwyd Gorfoledd y Pasg a Gwyrth y Gwanwyn. Braf oedd gweld aelod newydd o'r Ysgol Sul yn cymryd rhan am y tro cyntaf sef Efan Thomas. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Eiry a hyfryd oedd gweld dwy ferch ifanc sef Sioned ac Elan yn cynorthwyo Llinos a Janet gyda'r cyfeilio am y tro cyntaf ac yn cyflawni eu gwaith yn ardderchog. Felly mae cyfanswm cyfeilyddion Noddfa nawr wedi codi i 8.
Yn ôl yr ymateb ar ddiwedd yr oedfa roedd pawb wedi derbyn bendith wrth gyd-addoli gyda'r bobol ifanc ac yn uchel iawn eu canmoliaeth o'u cyfraniadau a'u talentau amrywiol.
Estynnir llongyfarchiadau i nifer o'r aelodau ar eu llwyddiant yn Eisteddfodau'r Urdd yn ddiweddar ac yn arbennig Cerys Angharad (1af Cerdd dant blynyddoedd 3 a 4) ac Elan (1af llefaru blynydoedd 7 i 9 a 1af yn y ddeuawd gyda'i ffrind) fydd yn mynd ymlaen i gystadlu yn y Genedlaethol yn Fflint yn ogystal â llawer o'r merched sydd yn rhan o ensemble a phartïon canu a dawnsio Aelwyd Llambed ac ysgol Bro Pedr. Pob lwc i bawb. *(Diolch i Janet am yr adroddiad.)*

Oedfa Deulu yn Noddfa

Bydd yr Oedfa Deulu yng nghwmni Menna Machreth ar 22 Ebrill am 5 o'r gloch yr hwyr yn addas i blant ac oedolion ac fe fydd gweithdy i'r plant cynradd a'r rhai llai yn ystod rhan o'r oedfa. Bydd Menna yn dod yr holl ffordd o Gaernarfon, felly gobeithio bydd nifer ohonon ni'n gallu ei chroesawu hi - dewch yn llu!

Cymanfa Ganu

Cynhelir rihyrsal Cymanfa Ganu cylch Caio a Llambed yn Noddfa ar Sul 8 Mai am 2 o'r gloch. Bydd y Gymanfa yng nghapel Bethel Cwm Pedol ar Sul 15 Mai am 4 o'r gloch - <u>Dalier sylw o'r amser newydd.</u> Edrychwn ymlaen i groesawu Delyth Morgans Phillips fel Arweinydd gwadd ac Elliw Dafydd fel Llywydd - dwy o'n haelodau ifanc dawnus. Gwerthfawrogir eich cefnogaeth i'r rihyrsal ac i'r Gymanfa. Paratoir te i bawb. Croeso cynnes i chi gyd.

Senana Cymru

Cynhelir cyfarfodydd blynyddol y Senana yn Ebeneser Llandeilo ar 4 Mai 2016, am 2 a 5.30, pan ddaw'r Parchg Mary Davies yn llywydd. Gobeithio y bydd rhai o'r Cylch yma yn cefnogi'r digwydd, gan gofio mor braf oedd hi i groesawu rhai i Aberduar ar gyfer cyrddau cenedlaethol mis Medi diwethaf. Mae angen archebu tocynnau te am £5 yr un ymlaen llaw felly ewch ati chwiorydd i wneud y trefniadau!

Senana Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion

Cynhelir cyfarfod blynyddol Senana'r Gymanfa eleni yng nghapel Bethania Aberteifi ar y 25ain o Fai am 2.30 y prynhawn pan fydd Mrs Ann Morgan yn llywyddu fel rhan o gyfarfodydd blynyddol y Gymanfa. Oedfa bregethu fydd yn dilyn am 4 y prynhawn. Gobeithio y bydd nifer o'r Cylch yn gallu bod yn bresennol yn y cyrddau hyn, fydd yn dechrau ar gyfer y gynhadledd ar y 24ain am 10.30 y bore, gydag oedfa'r Llywydd (y Parchg Irfon Roberts) am 6.30 yr hwyr (amser i'w gadarnhau).

Astudiaeth Feiblaidd

Dewch i rannu yn yr astudiaethau Beiblaidd ar aelwyd y Gilfach drwy wahoddiad Ann a Densil, o dan ofal y Parchg Athro Densil Morgan. Mae'r cyfarfodydd hyn am 7.00 yr hwyr:

19 Ebrill: Efengyl Marc, penodau 12 - 15 I'r Groes ac i'r bedd
3 Mai: Efengyl Marc, pennod 16 ar ei hyd, adnodau 1 - 20 Atgyfodiad, a, beth nesaf?
(A sylwadau o *Meeting God in Mark,* gan Rowan Williams)
A dyna ddiwedd tymor cyfan o ddarllen Efengyl na fyddai'n cymryd mwy na 20 munud o'i ddarllen o un pen i'r llall! Lot o drafod...
Croeso i bawb!

Cylch Darllen

Bydd y Cylch Darllen yn cwrdd i barhau thema 'disgyblion Iesu', am 10.30 yn festri Noddfa ar y dyddiadau hyn:
13eg o Ebrill a'r testun fydd Efengyl Ioan, pennod 20, adnodau 19 –29 (Thomas)
11eg o Fai, pan fyddwn yn edrych ar Efengyl Ioan, pennod 1 adnodau 43 - 51 (Nathanael). A dyna ddiwedd tymor arall gyda'n gilydd.
Croeso i bawb, i ddarllen, i drafod, uwchben paned.

Newyddion etc i'r gweinidog erbyn **16 Mai,** Galilea, 14 Cae Coedmor, Cwmann SA48 8EH, 01570 423442, jilltomos@tesco.net